# 4.0 Gwirfoddolwyr

## Gyrwyr Gwirfoddol

## Trosolwg


1. Gyrwyr Gwirfoddol a Gwirfoddolwyr sydd yn Gyrru
2. Ceir a Minibysiau
3. Diogelwch y Gyrrwr a'r Cerbyd
4. Gwybodaeth Bellach
5. Atodiad Un


## Gyrwyr Gwirfoddol a Gwirfoddolwyr sydd yn Gyrru

Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth yn y ddogfen hon yn ymwneud â 'gyrwyr gwirfoddol', h.y. gwirfoddolwyr y mae eu gweithgaredd gwirfoddoli yn golygu eu bod yn ysgwyddo rôl gyrrwr.

Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd gwirfoddolwyr eraill yn defnyddio eu ceir i yrru yn ôl ac ymlaen i'w lleoliad gwirfoddoli, neu wrth iddyn nhw wirfoddoli.



Llun: Grŵp o bobl yn rhannu car

Ar gyfer y gwirfoddolwyr yma, bydd y rhan fwyaf o gwmnïau yswiriant yn gofyn i'r gyrrwr fod â diogelwch 'domestig, cymdeithasol, pleser'. Os ydynt yn defnyddio eu car, er enghraifft, i fynychu cyfarfod ar ran y mudiad ble maen nhw'n gwirfoddoli, yna mae'n bosibl y bydd angen iddyn nhw uwchraddio i gael 'diogelwch busnes'. Mae'n arfer da ac yn rhywbeth sy'n cael ei argymell fod pob gwirfoddolwr sydd yn defnyddio ei gar ei hun wrth wirfoddoli yn hysbysu ei gwmni yswiriant. Mae llythyr enghreifftiol i'w weld yn Atodiad 1

## Ceir a Minibysiau

Mae'r wybodaeth hon yn ymwneud â'r gofynion ar gyfer ceir ac nid minibysiau. Nid yw cerbyd sydd yn gallu cludo mwy na naw yn destun deddfwriaeth rhannu ceir, ac maen nhw'n dod dan drwydded arbennig.

WWW

**Dolen Allanol**
Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan y Gymdeithas Cludiant Cymunedol.
Cymdeithas Cludiant Cymunedol

## Diogelwch y Gyrrwr a'r Cerbyd

### Gwirio Gyrrwr Gwirfoddol

- Dylai trwyddedau fod yn rhai llawn ac nid dros dro. Dylid archwilio trwyddedau pan fo'r gwirfoddolwr yn cychwyn, ac yna'n rheolaidd, i wirio a oes gan y gwirfoddolwr unrhyw gollfarnau diweddar neu ddifrifol. Pan fo gan yrrwr bwyntiau cosb ar ei drwydded, mae'n bosibl yr hoffai'r mudiad osod safon isaf o ran yr hyn a fyddai'n dderbyniol ai peidio.
- Mae'n bosibl y bydd mudiadau am osod gofyniad isaf o ran profiad gyrru.
- Mae rhai mudiadau wedi mynegi pryder ynghylch ffitrwydd gwirfoddolwr i yrru, yn enwedig am fod cyflwr iechyd rhywun yn gallu newid dros amser. Os yw iechyd (neu feddyginiaeth) rhywun yn peri risg i'w yrru, yna bydd ei Feddyg Teulu yn egluro hyn iddo. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i unigolyn hysbysu'r **Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA)** os yw'n dioddef o gyflwr meddygol neu anabledd a allai effeithio ar ei yrru, neu os yw'n datblygu cyflwr neu anabledd newydd, neu fod un cyfredol yn gwaethygu ers i'w drwydded gael ei chyhoeddi gyntaf. Unwaith i'r gyrrwr hysbysu'r **DVLA**, bydd y **Grŵp Meddygol Gyrwyr** sy'n rhan o'r DVLA yn gwneud penderfyniad ynghylch ffitrwydd yr unigolyn i yrru.

- Mewn rhai amgylchiadau mae'n bosibl y bydd angen i yrwyr gwirfoddol sydd yn cludo pobl fregus gan gynnwys plant gael gwiriad manylach y **Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)**. Pan fydd gyrrwr yn cludo oedolyn yn ôl ac ymlaen a rhwng y mannau ble y mae'n derbyn gofal iechyd, gofal personol neu ofal cymdeithasol oherwydd ei oed, afiechyd neu anabledd, yna byddai hyn yn cyd-fynd â'r diffiniad o weithgaredd a reoleiddir, sydd yn waith a/neu wirfoddoli na all rhywun ei wneud os yw wedi ei osod ar restr gwahardd oedolion y **DBS**. Pan fydd oedolyn yn gyrru cerbyd sydd yn cael ei ddefnyddio dim ond i gludo plant a bod hyn yn *aml neu'n ddwys, byddai hyn yn cyd-fynd â'r diffiniad o weithgaredd a reoleiddir, sydd yn waith a/neu'n wirfoddoli na all rhywun ei wneud os yw wedi ei osod ar restr gwahardd plant y **DBS**.

**Dolen Allanol**
Os hoffech ragor o wybodaeth am ddiogelu a recriwtio diogel, cysylltwch â'r CGGC
CGGC - Diogelu

***Aml** – unwaith yr wythnos neu amlach
**Dwys** – 4 diwrnod neu ragor mewn cyfnod o 30 diwrnod

## Gwiriadau ar y Cerbyd

- Dylid gofyn i'r gyrrwr gwirfoddol am y dystysgrif MOT os yw'r cerbyd yn hŷn na thair mlwydd oed.
- Mae angen i'r mudiad fod yn rhesymol hyderus bod y cerbyd yn ddiogel. Gallwch wneud hyn drwy wirio'r tystysgrifau MOT a'r cofnodion gwasanaethu.
- Dylid gofyn i'r gwirfoddolwr am gopi o'r dystysgrif yswiriant.
- Rhaid i geir fod â gwregysau diogelwch yn y blaen ac yn y cefn a dylai pob teithiwr wisgo gwregys. Mae gyrwyr yn gyfrifol am sicrhau bod plant dan 14 mlwydd oed yn gwisgo'u gwregys yn y modd priodol. Mae teithwyr dros 14 mlwydd oed yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn gwisgo gwregys.
- Mae'n bosibl y byddai sbortsceir, faniau a cherbydau oddi ar y ffordd yn anaddas ar gyfer cludo teithwyr. Rhaid i'r cerbyd fod yn hygyrch i'r teithwyr fynd iddo a dod ohono. Mae modd paru'r cleientiaid gyda'r gwirfoddolwr o ran y math o gerbyd sydd ar gael.

## Yswiriant

- Os yw mudiad yn berchen ar y cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio, yna mae'n gyfrifol am drefnu yswiriant. Os yw'r cerbyd yn eiddo i'r gwirfoddolwr, yna ef neu hi sydd yn gyfrifol am drefnu yswiriant priodol.
- Yn gyfreithiol, dim ond yswiriant trydydd parti sydd ei angen, ond mae'n arfer da i'r gyrrwr fod ag yswiriant cynhwysfawr. Dylai'r mudiad drefnu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus er mwyn iddynt fod wedi eu diogelu yn erbyn unrhyw hawliadau nad yw yswiriwr y car yn eu sicrhau. Hefyd, noder bod angen i'ch gwirfoddolwyr a'r cleientiaid gael eu hyswirio ar gyfer gweithgareddau pan nad yw'r cerbyd yn symud, er enghraifft pan fo'r cleient yn mynd i mewn neu allan o'r cerbyd neu'n croesi'r ffordd.
- Rhaid i berchen-yrrwr hysbysu ei gwmni yswiriant yn ysgrifenedig ei fod am yrru fel gwirfoddolwr, fel arall gall y polisi gael ei wneud yn annilys, sy'n golygu y byddai'r gyrrwr yn atebol ei hun am unrhyw ddifrod neu ddrwg sy'n cael ei wneud i gerbyd mewn damwain. Mae llythyr sampl ar gael yn adran gwybodaeth ychwanegol y ddogfen hon.
- Nid yw cynlluniau ceir i dalu unrhyw beth yn fwy i yrrwr na'r costau gwirioneddol y mae'n ei ysgwyddo; os yw'r gyrrwr yn gwneud 'elw', gallai hynny olygu bod y polisi yswiriant yn annilys.

## Yswiriant Torri i Lawr

Argymhellir fod gennych chi yswiriant torri lawr cyfredol, yn enwedig wrth gludo defnyddwyr gwasanaethau.

## Ad-dalu Milltiredd

Am ragor o wybodaeth ar ad-dalu milltiredd a threuliau gweler y daflen wybodaeth:
**4.13 Treuliau Gwirfoddolwyr**

## Hyfforddiant

Dylid hyfforddi gyrwyr os ydynt yn cludo'r henoed neu blant. Mae'n bosibl y bydd angen rhoi hyfforddiant ar godi a gollwng teithwyr. Dylid rhoi hyfforddiant ar ymwybyddiaeth anabledd a gofal cwsmer.

## Seibiant

Dylai gyrwyr gael seibiant am o leiaf 15 munud pob 2 awr o fewn taith, a rhwng teithiau.

## Cardiau Adnabod

Mae'n bosibl y bydd mudiadau am ystyried darparu Cerdyn Adnabod ar gyfer gyrwyr gwirfoddol er mwyn i'r bobl y maen nhw'n eu codi eu hadnabod yn rhwydd. Dylai'r dull adnabod gynnwys y prif rif ffôn ar gyfer y cynllun gyrru gwirfoddol.

## Alcohol

Ni ddylai gyrwyr yfed alcohol cyn taith. Mae alcohol yn aros yn y corff am gyfnod sylweddol o amser. Mae hyn yn fater y dylid rhoi sylw iddo yn yr hyfforddiant ac mae'n bosibl yr hoffech chi gael polisi eglur ar hyn.

## Bagiau

Dylid rhoi bagiau a siopa yn y gist neu eu cadw'n ddiogel i atal anaf os yw'r cerbyd yn stopio'n sydyn. Fodd bynnag, os yw iechyd gyrwyr gwirfoddol yn eu hatal rhag codi bagiau siopa neu gadeiriau a chynorthwywyr cerdded, dylai eu rheolwyr eu paru'n ofalus gyda chleientiaid priodol.

## Anifeiliaid Anwes

Mae modd cludo anifeiliaid anwes gyda chleientiaid, yn ôl disgresiwn y gyrrwr, cyn belled nad yw'r anifail yn effeithio ar ddiogelwch y cerbyd. Dylid mynd â chŵn tywys cleientiaid dall a byddar yn y cerbyd, heblaw bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny.

## Capasiti Seddau

Peidiwch byth â mynd y tu hwnt i gapasiti'r cerbyd, fel sy'n cael ei nodi gan y gwneuthurwr a'r yswiriwr.

## Damweiniau, Salwch neu Anaf

Os bydd damwain yn digwydd, dylid hysbysu'r mudiad a'r gwasanaethau brys ar unwaith, gan roi manylion. Os yw cleient yn mynd yn sâl neu'n cael ei anafu yn ystod taith, yna dylai'r gyrrwr geisio cymorth meddygol ar unwaith.

## Gyrru Minibysiau

Mae'r Cynllun Ymwybyddiaeth Gyrwyr Minibysiau (MiDAS) yn gynllun asesu a hyfforddi ar gyfer gyrwyr minibysiau, ceir a Cherbydau Amlbwrpas (MPV's) a gydnabyddir yn genedlaethol yn y sectorau gwirfoddol ac nid-er-elw. Mae MiDAS yn darparu hyfforddiant i leihau traul ar y cerbyd ac i sicrhau bod teithwyr yn cael eu cludo'n ddiogel. Mae pob tystysgrif MiDAS yn cael eu dyfarnu am gyfnod o 4 mlynedd ac argymhellir cwrs diweddaru ar ddiwedd cyfnod pob tystysgrif.

WWW

**Dolen Allanol**

Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy'r Gymdeithas Cludiant Cymunedol

CTA: Gyrru Minibws

**Cefnogi Trydydd Sector Cymru** Third Sector Support Wales

## Gwybodaeth bellach

**Gwybodaeth: Gofynion Gwahanol Gwmnïau Yswiriant (Saesneg yn Unig)**
**The ABI (Association of British Insurers)**
https://www.abi.org.uk/products-and-issues/choosing-the-right-insurance/motor-insurance/volunteer-drivers/

---

**Gyrwyr Gwirfoddol (Saesneg yn Unig)**
**Cyllid a Thollau EM**
https://www.gov.uk/guidance/check-if-you-need-to-pay-tax-on-mileage-payments-as-a-volunteer-driver

---

**Gyrru ar gyfer Gwaith (Saesneg yn Unig)**
**Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau**
https://www.rospa.com/rospaweb/docs/advice-services/road-safety/employers/work-own-vehicles.pdf

---

**Gyrru yn y Gwaith (Saesneg yn Unig)**
**Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch**
www.hse.gov.uk/pubns/indg382.pdf

---

**Y Gymdeithas Cludiant Cymunedol yng Nghymru (Saesneg yn Unig)**
**Cymdeithas Cludiant Cymunedol**
https://ctauk.org/driver-training/midas-training-suppliers-by-county/

# Atodiad Un

Enw
Cyfeiriad
Dyddiad

I: (Cwmni Yswiriant)
Parthed: (Rhif Polisi)

Annwyl Syr/Fadam,

Rwyf yn bwriadu ymgymryd â gwaith gwirfoddol ac, o bryd i'w gilydd, byddaf yn defnyddio fy ngherbyd i gario teithwyr neu i ymgymryd â dyletswyddau eraill, yn ôl y gofyn. Byddaf yn derbyn lwfans milltiroedd ar gyfer y teithiau hyn i dalu am gostau rhedeg fy ngherbyd yn unol ag Adran 1(4) Deddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981, sydd yn fy eithrio o gyfraith drwyddedu Cerbydau Gwasanaeth i Deithwyr a Cherbydau Hacni / Cerbydau Hurio Preifat.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau bod fy mholisi cyfredol yn fy yswirio ar gyfer gyrru gwirfoddol o'r fath.

A wnewch chi gadarnhau bod fy mholisi yswiriant yn indemnio'r asiantaethau ble rwyf yn gwirfoddoli yn erbyn hawliadau trydydd parti sy'n ganlyniad i ddefnyddio fy ngherbyd ar gyfer gwaith gwirfoddol o'r fath.

Yn gywir

(Deiliad Polisi)

Cefnogi Trydydd Sector Cymru

Third Sector Support Wales

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â **https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/**

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.